COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 13eg o ORFFENNAF 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Rory Francis, Mel Goch ap Meirion, Will G. Roberts, Ronwen D Roberts a Mark Thomas

Yn absenoldeb y Cadeirydd etholwyd y Cynghorydd Erwyn Jones i Gadeirio'r cyfarfod

9937/07/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Annwen Daniels, Mari Rees a Bedwyr Gwilym

9938/07/17 DERBYN DATGANIAD DERBYN SWYDD GAN GYNGHORWYR

PENDERFYNIAD: Arwyddwyd Datganiad Derbyn Swydd Cynghorydd gan y Cynghorwyr Ronwen D Roberts a Mark Thomas o flaen Clerc y Dref.

9939/07/17 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Rory Francis	**9945/07/17**	**Cais Ariannol**
Cynghorydd Will G Roberts	**9946/07/17**	**Ceisiadau Cynllunio**
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion	**9945/07/17**	**Ceisiadau Ariannol**

9940/07/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cyngor gael cais gan Y Dref Werdd am lythyr o gefnogaeth i'w cais am arian i gyllido eu Swyddog Amgylcheddol/Diogelu a Datblygu Cynefinoedd o fis Mai 2018 ymlaen.
PENDERFYNIAD: I yrru llythyr o gefnogaeth i'r Dref Werdd.

Cafwyd adroddiad byr gan y Cynghorydd Rory Francis yn dilyn cyfarfod safle ger Ysgol Maenofferen i drafod materion diogelwch plant wrth fynd a dod o'r ysgol. Cafwyd cyfarfod buddiol a chadarnhaol iawn gyda'r Cynghorwyr Rory Francis ac Annwen Daniels a'r Clerc yn mynychu ar ran y Cyngor Tref, pennaeth yr ysgol a Dylan Wynn Jones ar ran Cyngor Gwynedd. Mae tri opsiwn ar gael sef - llinellau melyn dwbl ar hyd y ffordd ger yr ysgol, gosod twmpathau ac arwyddion cliriach. Cafwyd gwybodaeth nad yw newid trefn y ffordd i fod yn ffordd unffordd yn debyg o gael ei ganiatáu.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Cafwyd llythyr o ddiolch gan drefnwyr Ras y Moelwyn yn dilyn eu cais am gymorth ariannol yn ddiweddar. Dywedwyd bod trefn newydd i'r ras yn 2018 er mwyn sicrhau dyfodol hir dymor y ras. Rhedwyr Hebog fydd trefnwyr swyddogol y ras gyda Chwb Rygbi Bro Ffestiniog yn fan cychwyn a darfod y ras gyda'r Clwb Peldroed yn stiwardio. Mae'r tri chlwb wedi uno i greu sefydliad o'r newydd yn enw Ras y Moelwyn.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Cafwyd gwahoddiad gan Barc Cenedlaethol Eryri i roi barn ar y diwygiadau arfaethedig yn unig o Gynllun Datblygu Lleol Eryri. Gofynnir am unrhyw sylwadau cyn diwedd Awst.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i drefnu cyfarfod at ddiwedd Awst i drafod y diwygiadau arfaethedig.

Cafwyd gwybodaeth bod y Cynghorydd Erwyn Jones a Sara Ashton-Thomas o Gylch Meithrin Blaenau Ffestiniog am wneud taith noddedig o'r Blaenau i ben y Wyddfa ym mis Awst i godi arian tuag at y Cylch Meithrin.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ddymuno pob lwc iddynt ar eu taith.

9941/07/17 MATERION YR HEDDLU

Croesawyd yr Arolygydd Gethin Jones (Arolygydd newydd i'r ardal) a'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Delyth Edwards ac Emma Jones i'r cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth ynglyn a phroblemau parcio'n anghyfreithlon o amgylch y dref. Cafwyd gwybodaeth hefyd bod y materion o ddwyn yn ardal Tanygrisiau mewn llaw gan yr heddlu.

Teimlai'r heddlu bod ambell un sydd wedi gweld trosedd yn digwydd yn ofnus o roi'r wybodaeth i'r heddlu rhag ofn ôl-effaith arnynt. Dywedodd yr Arolygydd mai'r ffordd orau o roi'r wybodaeth i'r heddlu yw drwy ffonio 'Crimestoppers' ac nad oes raid gadael enw na chyfeiriad neu os nad yw hyn yn bosib gall berson adrodd be mae wedi ei weld i rywun arall a'r person yna wedyn yn rhoi'r wybodaeth i'r heddlu.

Gofynnwyd a oedd mwy o achosion pan mae angen i'r heddlu ddefnyddio golau glas wedi digwydd yn ddiweddar. Cafwyd gwybod bod yr heddweision yn gorfod teithio cyn belled â Thywyn at ddigwyddiad a hefyd gall yr ysgol yrru'r heddlu fod yn ymarfer yn fwy aml hwyrach ar y darn yma o'r A470.Mi fydd yr Arolygydd yn gyrru'r manylion parthed ystadegau trosedd yn yr ardal i'r Cyngor cyn hir.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth a gofyn am gael ystadegau troseddu ar gyfer yr ardal gan yr Arolygydd.

9942/07/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 15fed MEHEFIN 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Rory Francis yn eilio

9943/07/17 CYFRIFON I'W TALU

Meithrinfa'r Felin (Planhigion)	£	630.00	Rhif Siec.	002451
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	1016.20	Rhif Siec.	002454
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	60.88	Rhif Siec.	002455
J P Farrington (Garddio)	£	1165.00	Rhif Siec.	002456
Kalamazoo (Papur cofnodion)	£	173.22	Rhif Siec.	002457
Scribe 2000 (Rhaglen cyfrifon)	£	462.00	Rhif Siec.	002458
Owain Aeron (Caeau chwarae)	£	830.00	Rhif Siec.	002459
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002461
Dylan Jones (Peintio'r pafiliwn)	£	620.00	Rhif Siec.	002468
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffôn)	£	33.72	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	205.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod ac i dalu unrhyw filiau brys ym mis Awst

9944/07/17 ARIAN I MEWN

Carys Jones (Y Parc)	£	200.00
HMRC (Ad-daliad TAW)	£	9934.95

9945/07/17 CEISIADAU ARIANNOL

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Rory Francis - Y Dref Werdd

Cynghorydd Mel Goch ap Meirion - Y Dref Werdd a Chylch Meithrin Ffestiniog

Y Dref Werdd	£	150.00	Rhif Siec.	002469
Cylch Meithrin Ffestiniog	£	600.00	Rhif Siec.	002470

9946/07/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Will G Roberts NP5/59/LB218E ac NP5/59/LB218D

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0585/03/LL
   Ymgeisydd Hughes Specialised Transport
   Gwaith Setts
   Manod
   Blaenau Ffestiniog
   Codi adeilad llwytho a dosbarthu
   Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0616/03/LL
   Ymgeisydd Mr M Jones
   Fferm y Ffynnon
   Manod
   Blaenau Ffestiniog
   Cais i ddymchwel estyniadau unllawr presennol a chodi estyniadau deulawr ar ochr a chefn yr eiddo presennol
   Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0182/03/LL
   Ymgeisydd Mr J T Jones
   Ty'n y Coed
   Rhiwbryfdir
   Blaenau Ffestiniog
   Cais ôl-weithredol i newid defnydd tir ar gyfer creu safle carafannau teithiol ac estynnu adeilad presennol i greu toiledau a chodi adeilad ar gyfer gwaredu gwastraff
   Gwrthwynebiad ar sail -
   1. **Pryderon ynglŷn â mynediad i'r safle oddi ar yr A470**
   2. **Pryderon ynglŷn â mynediad i'r safle ar Ffordd Baltic ble mae cae chwarae plant gyferbyn a'r mynediad**
   3. **Pryderon ynglŷn â chynyddiad mewn trafnidiaeth ar Ffordd Glanypwll sydd yn ffordd gyfyng iawn**
   4. **Pryderon ynglŷn â chynyddiad mewn sŵn i drigolion cyfagos**
   5. **Pryderon a yw'r sustem carthffosiaeth bresennol yn addas ar gyfer y datblygiad hwn**

4. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/LB218E
Ymgeisydd Ms P Thynne
Fferm y Cwm
Cwm Cynfal
Ffestiniog
Newid defnydd a newidiadau allanol i adeilad cwrtil i'w drosi i lety ansileri i'r tŷ annedd.
Dim Gwrthwynebiad

5. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/LB218D
Ymgeisydd Ms P Thynne
Fferm y Cwm
Cwm Cynfal
Ffestiniog
Caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau i adeilad cwrtil i'w drosi i lety ansileri i'r tŷ annedd yn cynnwys amnewid ac ychwanegu ffenestri to, ychwanegu nwyddau dwr glaw, ychwanegu ffliw a stof, amnewid drysau a ffenestri, ychwanegu llawr concrid gyda gwres canolog dan y llawr a gorffeniad llechi, ac ychwanegu ystafell gawod.
Dim Gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/672A
Ymgeisydd Mr Brian Wright
Institiwt y Pensiynwyr
Sgwâr y Farchnad
Ffestiniog
Newid defnydd o gyn sefydliad pensiynwyr i dŷ annedd
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0423/03/HY
Ymgeisydd Cardtronics Ltd
Eurospar
Blaenau Ffestiniog
Gosod peiriant ATM
Caniatáu

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0429/03/LL
Ymgeisydd Cornerstone Telecommunications
Tir ger Canolfan Ail-gylchu
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Cais i dynnu amod 5 o ganiatâd C16/1450/03/HT sy'n ymwneud a thirweddu
Caniatáu

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0422/03/HY
Ymgeisydd Cardtronics Ltd
Eurospar
Blaenau Ffestiniog
Arwyddion cysylltiol a'r peiriant ATM
Caniatáu

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0059/03/LL
Ymgeisydd Roger Needle
Pencae
Fuches Wen
Blaenau Ffestiniog
Cais i ddymchwel sied bresennol a chodi estyniad yn ei le
Caniatáu

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0493/03/DA
Ymgeisydd Mrs V & Dr J Butcher
Tan y Bryn,
Ffordd Pencefn
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Cais am ddiwygiadau di-faterol i gais a ganiatawyd yn flaenorol o dan gyfeirnod C15/1258/03/LL trwy ddiwygio maint ffenestri ymestyn storfa, ychwanegu ffenestri, newid gorffeniad
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Fel yr uchod a derbyn y wybodaeth parthed penderfyniadau gan yr Awdurdod Cynllunio.

9947/07/17 PWYLLGORAU'R CYNGOR TREF

Penodi'r Cynghorwyr Rory Francis, Mel Goch ap Meirion a Ronwen D Roberts ar Bwyllgorau'r Cyngor Tref

PENDERFYNIAD: Penodwyd y Cynghorwyr Rory Francis, Mel Goch ap Meirion a Ronwen D Roberts ar Bwyllgorau Mwynderau, Cynllunio, Cyfraith a Threfn, Materion Parcio a Thrafnidiaeth ac Is Bwyllgor y Cyngor. Penodwyd y Cynghorydd Rory Francis hefyd ar y Pwyllgor Adnoddau a'r Cynghorydd Ronwen D Roberts ar y Pwyllgor Nadolig.

9948/07/17 BYRDDAU LLYWODRAETHWYR

Penodi Cynghorwyr i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fyrddau Llywodraethwyr Ysgolion lleol

PENDERFYNIAD: Penodwyd y Cynghorydd Rory Francis i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Maenofferen a'r Cynghorydd Ronwen D Roberts i gynrychioli'r Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Tanygrisiau.

9949/07/17 CAMERÂU CC

Yn dilyn y penderfyniad i uwchraddio recordyddion ein hoffer ccc, ni fu i'r recordydd yn Eurospar gael ei gynnwys. Trafod pris i wneud hyn a hefyd yr opsiwn i osod camerâu ar bafiliwn y Parc yr un pryd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y pris o £2140 ar gyfer uwchraddio'r holl recordyddion ac i roi camerâu ar y pafiliwn

9950/07/17 PWYLLGOR NADOLIG

Trefnu dyddiad cyfarfod

PENDERFYNIAD: Oherwydd anawsterau, i drefnu cyfarfod at ddechrau mis Medi drwy e-bost.

9951/07/17 GOLEUADAU NADOLIG

Trafod pris ar gyfer goleuadau ychwanegol yn Sgwâr Diffwys a rhai i'r Parc

PENDERFYNIAD: I drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod mis Medi yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Nadolig

9952/07/17 IECHYD

Ni chafwyd gwybodaeth

9953/07/17 PARTNERIAETH Y PARC

Cafwyd gwybodaeth bod Y Parc wedi ennill Y Faner Werdd unwaith eto

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9954/07/17 CAEAU CHWARAE

Trafod adroddiad arolwg misol y caeau chwarae gan yr archwiliwr

PENDERFYNIAD: I'w trafod ym Mhwyllgor Mwynderau nos Iau 20fed o Orffennaf yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

9955/07/17 Y PARC

Trafod darfod y gwaith angenrheidiol a thrafod prynu polyn flag

PENDERFYNIAD: Cafwyd diweddariad ynglŷn â'r gwaith angenrheidiol yn y Parc - mae'r biniau newydd gyda logo'r Cyngor Tref arnynt ar fin cael eu gyrru atom, y ffens newydd i'w osod cyn gwyliau'r haf, y biniau sbwriel wedi eu harchebu, y pafiliwn, meinciau a'r byrddau picnic wedi eu peintio erbyn hyn.
I beidio archebu polyn fflag ar gyfer y Faner Werdd oherwydd y costau sydd ynghlwm.

9956/07/17 Y PARC

Cais am ganiatâd i gynnal sesiwn chwarae i blant ar ddydd Gwener 18fed o Awst rhwng 10.30 a 12.30

PENDERFYNIAD: I ganiatáu i'r Parc gael ei ddefnyddio ar gyfer sesiwn chwarae ar 18fed o Awst.

9957/07/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorwyr Erwyn Jones a Mel Goch ap Meirion fynychu cyfarfod Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas y Brenin nos Fawrth 20fed o Fehefin.
Bu i'r Cynghorydd Erwyn Jones roi adroddiad cyflawn i'r Cyngor o'r cyfarfod.
Dywedodd bod gan y Parc 20% yn llai o adnoddau oherwydd arbedion arian parhaol a Brexit.
Pwnc llosg ar y noson oedd parcio o fewn ardal y Parc yn enwedig ardal Y Wyddfa gyda channoedd o bobl yn anwybyddu'r arwyddion 'Clear Way' yno.
Mae 2789cm o lwybrau cyhoeddus o fewn y Parc ac mae'r Parc yng nghyd weithio gyda Chyngor Gwynedd i gynnal a chadw'r llwybrau. Mae cyfrifoldeb am giatiau, camfeydd ayb gyda'r tir feddianwyr. Mae camfeydd ysgol yn bethau prin erbyn hyn gan fod giatiau yn cael eu gosod ble mae'n bosib yn lle camfeydd oherwydd peryglon i rai disgyn o'r camfeydd neu fethu eu dringo.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9958/07/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD
Ni chafwyd adroddiad

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9959/07/17 CLERKS AND COUNCILS DIRECT
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9960/07/17 RHEILFFORDD FFESTINIOG
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9961/07/17 THE CLERK
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 14eg MEDI 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 14eg MEDI 2017
AR Y 7fed MEDI 2017